Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)
## Crynodeb o'r Bil

Rhagfyr 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Rhagfyr 2024

**Awdur:**
Chloe Corbyn

**Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o ddarpariaethau'r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) a gyflwynwyd i'r Senedd ar 9 Rhagfyr 2024.**

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 1**

Sut i ddefnyddio'r crynodeb hwn o'r Bil ........ 2

**2. Cipolwg ar y Bil ........ 3**

**3. Crynodeb o'r darpariaethau ........ 3**

Rhan 1 – Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru ........ 3

Sefydlu a phrif amcan ........ 3

Swyddogaethau Cyffredinol ........ 3

Rhan 2 – Asesu, cofrestru a monitro tomenni nas defnyddir ........ 4

Cofrestr Tomenni Nas Defnyddir ........ 4

Asesu tomenni nas defnyddir ........ 5

Cofrestru a dadgofrestru tomenni nas defnyddir ........ 6

Categorïau tomenni nas defnyddir ........ 7

Newidiadau hysbysadwy i'r gofrestr ........ 8

Darpariaeth atodol ........ 8

Rhan 3 – Ymdrin ag ansefydlogrwydd tomen a bygythiadau i sefydlogrwydd tomen ........ 8

Ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir i gynnal gweithrediadau ........ 8

Gweithrediadau a gynhelir gan yr Awdurdod ........ 9

Taliadau mewn cysylltiad â gweithrediadau ........ 9

Darpariaeth atodol ........ 10

Rhan 4 – Darpariaeth Atodol ........ 10

Rhannu gwybodaeth ........ 10

Pwerau mynediad ........ 11

Amrywiol ........ 12

Rhan 5 - Cyffredinol ........ 12

Troseddau ........ 12

Rheoliadau ........ 12

Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill ........ 13

Achosion arbennig ........ 13

Dehongli ........ 13

Amrywiol ........ 14

Atodlen 1 – Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru ........ 14

Atodlen 2 – Hawliadau am ddigollediad gan berchnogion a chyfranwyr ........ 14

Atodlen 3 – Addasiadau i adrannau 49 a 50 pan fo hysbysiad o dan adran 33 yn cael ei ganslo ........ 14

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y **Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)** i'r Senedd ar 9 Rhagfyr 2024.

Nod trosfwaol y Bil yw diogelu lles pobl drwy gyflwyno "system gyson a chadarn o asesu, cofrestru, rheoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir yng Nghymru".

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud:

> Bydd y gyfundrefn newydd yn diogelu lles pobl, cymunedau a seilwaith allweddol Cymru trwy sefydlu corff cyhoeddus newydd a fydd â swyddogaethau asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni.

Mae'r Bil yn cynnwys:

- **Sefydlu corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru**, sef Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru ("yr Awdurdod"), i roi'r drefn newydd ar waith, gyda'r nod o sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd.
- Datblygu, a chynnal a chadw **cofrestr genedlaethol o domennydd nas defnyddir** sy'n fygythiad, neu a allai fod yn fygythiad, i les pobl oherwydd ansefydlogrwydd.
- Dull cenedlaethol newydd o **gategoreiddio tomenni**, wedi'i ategu gan asesiad llawn ar gyfer pob safle lle mae asesiad rhagarweiniol yn pennu y gallai fod yn briodol cofrestru.
- **Dyletswydd i fonitro tomenni cofrestredig**.
- Pwerau i'r Awdurdod **ei gwneud yn ofynnol i berchennog neu berchnogion unrhyw dir ymgymryd â gweithrediadau** i atal neu ddelio â bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir, neu i sefydlogi tomenni i'w hatal rhag dod yn fwy ansefydlog.
- Pwerau i'r Awdurdod **ymgymryd â gweithrediadau** ar unrhyw dir i atal neu ddelio â bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir, neu i sefydlogi tomenni nas defnyddir i'w hatal rhag dod yn fwy ansefydlog. At hynny, bydd yn gallu **adennill treuliau** oddi wrth y perchnogion am gostau mewn cysylltiad â chamau a gymerir neu weithrediadau, a gwaith adfer sy'n rhesymol angenrheidiol o ganlyniad i'r camau hynny.
- Mae rhwystro asesiadau monitro neu weithgareddau o dan y Bil yn **drosedd**. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â phwerau mynediad

a phwerau sy'n caniatáu i'r Awdurdod fynnu gwybodaeth a dogfennau gan gyrff penodol.

Mae'r Bil yn dilyn **ymgynghoriad Papur Gwyn 2022 ar ddiogelwch tomenni glo**. Llywiwyd hyn gan **adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gan Gomisiwn y Gyfraith**, a adolygodd y fframwaith deddfwriaethol ar ddiogelwch tomenni glo.

Roedd ymgynghoriad y Papur Gwyn yn canolbwyntio ar domenni glo. Fodd bynnag, roedd hefyd yn ystyried a ddylid datblygu'r drefn newydd mewn ffordd a fyddai'n galluogi cyflwyno tomenni nad ydynt yn domenni glo dros amser. Er nad yw'n cael sylw penodol yn y Bil, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r broses ar gyfer cyflwyno tomenni nad ydynt yn domenni glo.

Mae'r Bil ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i broses ddeddfwriaethol y Senedd. Ymddangosodd Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, gerbron y **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** ar 12 Rhagfyr 2024. Mae'r Pwyllgor yn ymgynghori ar y Bil ar hyn o bryd, a bydd yn cynnal rhagor o sesiynau tystiolaeth yn y flwyddyn newydd. Bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn ystyried y Bil.

## Sut i ddefnyddio'r crynodeb hwn o'r Bil

Nid yw'r ddogfen hon yn grynodeb hollgynhwysol o bob agwedd ar y Bil. Cafodd ei chynllunio i gael ei defnyddio'n electronig ac i gyfeirio at ragor o fanylion.

Yn yr adrannau crynodeb o'r darpariaethau, mae testun rhif yr adran (e.e. adran 1) yn rhoi linc i'r adran berthnasol o'r Bil. Mae'r testun sy'n dilyn yn cynnwys linc i'r nodiadau esboniadol lle y ceir rhagor o fanylion. Mae lincs hefyd i wybodaeth berthnasol arall.

# 2. Cipolwg ar y Bil

Mae 88 o adrannau yn y Bil, wedi eu trefnu'n bum rhan, ac mae tair Atodlen ynddo:

- **Rhan 1** – Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru.
- **Rhan 2** – Asesu, cofrestru a monitro tomenni nas defnyddir.
- **Rhan 3**– Ymdrin ag ansefydlogrwydd tomen a bygythiadau i domen.
- **Rhan 4** – Atodol.
- **Rhan 5** – Cyffredinol.
- **Atodlen 1** – Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru.
- **Atodlen 2** – Hawliadau am ddigollediad gan berchnogion a chyfranwyr.
- **Atodlen 3** – Addasiadau i adrannau 49 a 50 pan fo hysbysiad o dan adran 33 yn cael ei ganslo.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys tabl sy'n nodi pwerau Llywodraeth Cymru o dan y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth a'r cyfiawnhad dros bwerau o'r fath.

Mae hefyd yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n nodi costau a manteision y cynigion yn y Bil.

# 3. Crynodeb o'r darpariaethau

## Rhan 1 – Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru

### Sefydlu a phrif amcan

**Mae Adran 1** yn sefydlu Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru ('yr Awdurdod').

**Mae adran 2** yn nodi prif amcan yr Awdurdod wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Bil, sef "sicrhau nad yw **tomenni nas defnyddir** yn bygwth **lles pobl** oherwydd eu hansefydlogrwydd. Yn unol â'r amcan hwn, rhaid i'r Awdurdod hyrwyddo safonau uchel mewn perthynas â rheoli tomenni nas defnyddir a bygythiadau i'w sefydlogrwydd.

### Swyddogaethau Cyffredinol

**Mae adran 3** yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru, a chaiff hefyd roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i unrhyw berson arall ar unrhyw fater sy'n ymwneud â thomenni nas defnyddir (y gall

godi ffi amdano).

**Mae adran 4** yn amlinellu y gall, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, roi cymorth ariannol i unrhyw berson mewn cysylltiad â gwariant perthnasol, naill ai drwy grant neu fenthyciad, ac yn ddarostyngedig i amodau.

**Mae adran 5** yn nodi swyddogaethau ategol yr Awdurdod, gan ddweud y caiff "wneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso arfer ei swyddogaethau neu sy'n ffafriol neu'n ddeilliadol i'w harfer".

Mae Rhan 1 hefyd yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch yr Awdurdod.

## Rhan 2 – Asesu, cofrestru a monitro tomenni nas defnyddir

### Cofrestr Tomenni Nas Defnyddir

**Mae adran 6** yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i lunio a chynnal cofrestr electronig o domennydd nas defnyddir y mae'n penderfynu eu bod yn bygwth lles pobl oherwydd ansefydlogrwydd, neu y gallant beri bygythiad o'r fath pe bai ansefydlogrwydd.

**Mae adran 7** yn nodi'r meini prawf ar gyfer cofrestru, sef bod tomen yn bygwth lles pobl oherwydd ansefydlogrwydd neu y gallai beri bygythiad o'r fath pe bai ansefydlogrwydd.

**Mae adran 8** yn nodi'r eitemau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y gofrestr ar gyfer tomen nas defnyddir. Yn ogystal â map o ardal y domen:

a. yr enw neu yr enwau cyffredin ar y domen;
b. lleoliad y domen;
c. dynodwr unigryw a roddwyd i'r domen gan yr Awdurdod;
d. categori'r domen;
e. dyddiad yr arolygiad diweddaraf o'r domen (os oes un); ac
f. unrhyw wybodaeth ychwanegol a bennir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

**Mae adran 9** yn ymdrin â chaniatáu i'r cyhoedd weld y gofrestr Rhaid i'r Awdurdod sicrhau y gall aelodau o'r cyhoedd weld y mapiau a'r wybodaeth yn y gofrestr (ac eithrio unrhyw wybodaeth a nodir gan reoliadau o dan bwynt bwled (f) uchod) yn electronig ar bob adeg resymol.

**Mae adran 10** yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i fonitro sefydlogrwydd, a bygythiadau i sefydlogrwydd, pob tomen nas defnyddir yn y gofrestr, trwy gynnal unrhyw arolygiadau neu weithgareddau monitro eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

## Asesu tomenni nas defnyddir

**Mae adran 11** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflawni:

a. asesiad rhagarweiniol o domenni nas defnyddir, nad ydynt yn y gofrestr, er mwyn nodi'r rhai y gallai fod angen eu cynnwys;
b. asesiad llawn o'r tomenni hynny a nodwyd gan asesiad rhagarweiniol fel rhai y gallai fod angen eu cynnwys yn y gofrestr; ac
c. mewn rhai amgylchiadau, asesiad llawn o domenni sydd eisoes yn y gofrestr.

**Mae adran 12** yn diffinio asesiad rhagarweiniol fel asesiad i weld a yw'n ymddangos y gallai'r meini prawf ar gyfer cofrestru tomen nas defnyddir fod wedi eu bodloni.

**Mae adran 13** yn nodi'r broses ar gyfer asesiadau rhagarweiniol o'r holl domenni nas defnyddir. Mae'n nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiad rhagarweiniol mewn perthynas â phob tomen nas defnyddir, a llunio adroddiad ar bob asesiad. Rhaid iddo baratoi rhaglen sy'n nodi ei ddull gweithredu arfaethedig a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cynnal yr asesiadau rhagarweiniol gofynnol. Rhaid i'r rhaglen gael ei chymeradwyo gan Weinidogion Cymru a'i chyhoeddi.

**Mae adran 14** yn gymwys pan fo asesiad rhagarweiniol wedi ei gynnal, ond bod yr Awdurdod yn ystyried y dylid cynnal asesiad rhagarweiniol ychwanegol. Gall hyn fod oherwydd newid mewn amgylchiadau neu oherwydd bod gwybodaeth ar gael nas ystyriwyd pan gynhaliwyd yr asesiad blaenorol.

**Mae adran 15** yn diffinio asesiad llawn fel asesiad o:

a. sefydlogrwydd y domen;
b. materion sy'n effeithio ar sefydlogrwydd y domen neu a allai effeithio ar hynny (gan gynnwys unrhyw ryngddibyniaethau rhwng y domen a thomen arall);
c. a allai unrhyw ryngddibyniaethau rhwng y domen a thomen nas defnyddir arall effeithio ar sefydlogrwydd y domen arall; ac
d. a yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru wedi eu bodloni.

**Mae adran 16** yn nodi'r broses ar gyfer penderfynu a ddylid cynnal asesiad llawn o domen anghofrestredig. Os, ar sail asesiad rhagarweiniol, yr ymddengys i'r

Awdurdod y gallai'r meini prawf ar gyfer cofrestru tomen nas defnyddir fod wedi eu bodloni, rhaid iddo gynnal asesiad llawn o'r domen a llunio adroddiad.

**Mae adran 17** yn gymwys pan fo'r Awdurdod yn ystyried y dylid cynnal asesiad llawn mewn perthynas â thomen nas defnyddir sydd eisoes yn y gofrestr oherwydd newid mewn amgylchiadau, neu oherwydd bod gwybodaeth newydd ar gael. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiad llawn ychwanegol a llunio adroddiad.

**Mae adran 18** yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod, cyn cynnal asesiad llawn mewn perthynas â thomen nas defnyddir, roi hysbysiad i bob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae angen mynediad iddo. Rhaid i'r hysbysiad:

a. ddatgan bod yr Awdurdod wedi trefnu asesiad llawn mewn perthynas â'r domen;
b. datgan enw'r unigolyn a fydd yn cynnal yr asesiad;
c. esbonio y gallai fod angen mynd ar y tir i gynnal yr asesiad;
d. pennu'r dyddiad y gallai fod angen mynd ar y tir; a
e. datgan y caiff yr Awdurdod, oni bai mai tir y Goron yw'r tir, wneud cais am warant i fynd ar y tir os gwrthodir mynediad.

**Mae adran 19** yn nodi, pan fo'r Awdurdod yn llunio adroddiad ar asesiad llawn, rhaid iddo (cyn gynted ag y bo'n ymarferol) roi hysbysiad ynghylch casgliadau'r adroddiad i bob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r domen wedi ei lleoli arno.

## Cofrestru a dadgofrestru tomenni nas defnyddir

**Mae adran 20** yn ymdrin â chynigion i gofrestru tomen, pan fo asesiad llawn yn dod i'r casgliad y gallai'r meini prawf ar gyfer cofrestru tomen nas defnyddir fod wedi eu bodloni. Rhaid i'r Awdurdod roi hysbysiad ei fod yn cynnig cynnwys y domen yn y gofrestr i bob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r domen wedi ei lleoli arno, ac unrhyw berson arall a chanddo ystâd neu fuddiant yn y tir hwnnw (heblaw fel morgeisai). Rhaid i'r hysbysiad nodi'r domen (gan gynnwys map) ac:

- esbonio bod yr Awdurdod yn cynnig cofrestru'r domen a'i resymau dros y cynnig;
- pennu'r categori y mae'r Awdurdod yn ei gynnig ar gyfer y domen a'i resymau dros y cynnig;
- pennu'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Awdurdod ynghylch y cynnig, ac esbonio sut y gellir cyflwyno sylwadau.

**Mae adran 21** yn nodi'r penderfyniad ynghylch cofrestru, unwaith y bydd y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau ynghylch cynnig wedi dod i ben. Rhaid i'r Awdurdod benderfynu pa un a yw'n fodlon bod y meini prawf ar gyfer cofrestru'r domen wedi eu bodloni - ac os felly, rhaid ei chynnwys yn y gofrestr cyn gynted â phosib. Mae'n rhaid iddo roi hysbysiad penderfynu'r un bobl yr oedd gofyn iddo eu hysbysu o'r blaen.

**Mae adran 22**, cynnig i dynnu tomen oddi ar y gofrestr, yn berthnasol pan fo adroddiad o asesiad llawn o domen sydd eisoes wedi'i chofrestru yn dod i'r casgliad nad yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru yn cael eu bodloni, mwyach. Mae'r broses yr un fath ag o dan adran 20 o ran pwy y mae'n rhaid eu hysbysu.

**Mae adran 23** yn nodi'r broses ar gyfer penderfyniad ynghylch dileu tomen o'r gofrestr.

## Categorïau tomenni nas defnyddir

**Mae adran 24** yn nodi'r pedwar categori y caniateir rhoi tomen nas defnyddir yn y gofrestr ynddo: 1, 2, 3 neu 4 Categori 1 yw'r tomenni hynny sy'n peri'r pryder mwyaf, a Chategori 4 yw'r rhai hynny sy'n peri'r pryder lleiaf. Mae'r categorïau yn seiliedig ar bedwar maen prawf: ansefydlogrwydd y domen, ansefydlogrwydd posibl y domen, y bygythiad i les pobl a berir gan ansefydlogrwydd y domen, a'r bygythiad y gallai'r domen ei beri i les pobl pe bai ansefydlogrwydd.

**Mae adran 25** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei bolisi ar gategoreiddio tomenni nas defnyddir.

**Mae adran 26** yn nodi, ar gyfer categoreiddio cychwynnol tomen nas defnyddir, bod yn rhaid i'r Awdurdod roi sylw i'r adroddiad ar yr asesiad llawn, y polisi o dan adran 25, ac unrhyw wybodaeth arall y mae'n ei hystyried yn berthnasol.

**Mae adran 27** yn ymdrin ag adolygiadau o gategoreiddio. Lle bo'r Awdurdod yn cynnal asesiad llawn o dan adran 17, a bod yr adroddiad yn dod i'r casgliad bod y meini prawf ar gyfer cofrestru'r domen yn parhau i gael eu bodloni, rhaid i'r Awdurdod adolygu categori'r domen cyn gynted ag y bo'n ymarferol. At hynny, gall adolygu categori tomen ar unrhyw adeg arall.

### Newidiadau hysbysadwy i'r gofrestr

**Mae adran 28** yn diffinio 'newid hysbysadwy' fel newid i ardal tomen nas defnyddir ar fap yn y gofrestr, neu newid i gategori tomen nas defnyddir.

**Mae adran 29** yn nodi, os yw'r Awdurdod yn cynnig gwneud newid hysbysadwy, rhaid iddo roi hysbysiad o'r cynnig i bob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r domen wedi ei lleoli arno, ac unrhyw berson arall sydd ag ystâd neu fuddiant yn y tir. Mae'n nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i hysbysiad o newid arfaethedig ei gynnwys.

**Mae adran 30** yn nodi gwybodaeth am y penderfyniad ynghylch newid hysbysadwy, gan gynnwys yr hyn y mae'n rhaid ei ystyried a chynnwys hysbysiad penderfyniad.

### Darpariaeth atodol

**Mae adran 31** yn nodi'r amgylchiadau lle gellir adennill digolledIad am ddifrod neu aflonydd gan yr Awdurdod. Pan fo gweithgaredd arolygu neu fonitro, neu asesiad rhagarweiniol neu asesiad llawn, yn cael ei gynnal a bod hyn yn difrodi tir neu eiddo, neu'n aflonyddu ar fwynhad o'r tir, gellir hawlio digolledIad.

**Mae adran 32** yn nodi bod person sy'n rhwystro'n fwriadol neu'n ymyrryd yn fwriadol â gweithgaredd arolygu neu fonitro, neu asesiad rhagarweiniol neu asesiad llawn, yn cyflawni trosedd, yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

## Rhan 3 – Ymdrin ag ansefydlogrwydd tomen a bygythiadau i sefydlogrwydd tomen

### Ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir i gynnal gweithrediadau

**Mae adran 33** yn rhoi pŵer i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i berchennog ar dir gynnal gweithrediadau i atal bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir neu ymdrin â'r bygythiadau hynny, neu i sefydlogi tomenni nas defnyddir i'w hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog, er mwyn atal bygythiadau i les pobl.

**Mae adran 34** yn gwneud darpariaethau ynghylch hawl y perchennog i fynd ar ei dir i gynnal gweithrediadau o'r fath, pan nad y perchennog yw meddiannydd y tir.

**Mae adran 35** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi copïau i bartïon â buddiant o unrhyw hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gynnal gweithrediadau o'r fath.

**Mae adrannau 36 i 41** yn ymdrin â materion cysylltiedig, megis hawliau i apelio yn erbyn hysbysiad, y gosb am fethu â chydymffurfio â hysbysiad, canslo hysbysiad a'r ad-daliad cysylltiedig o dreuliau.

## Gweithrediadau a gynhelir gan yr Awdurdod

**Mae adran 42** yn rhoi pŵer i'r Awdurdod i gynnal gweithrediadau ar dir i atal bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir neu ymdrin â'r bygythiadau hynny, neu i sefydlogi tomenni nas defnyddir i'w hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog, er mwyn atal bygythiadau i les pobl.

**Mae adran 43** yn amlinellu hawl yr Awdurdod, at ddiben cynnal gweithrediadau neu waith adfer canlyniadol ar dir, i symud ymaith a gwaredu unrhyw eiddo ar y tir sy'n perthyn i berson arall. Rhaid iddo roi'r enillion o unrhyw werthiant i'r perchennog.

**Mae adran 44** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi o leiaf 21 o ddiwrnodau o hysbysiad i berchennog y tir ei fod yn bwriadu cynnal gweithrediadau ar dir. Mae'n nodi cynnwys hysbysiad o'r fath, gan gynnwys y bygythiad i les pobl y bwriedir i'r gweithrediadau ei osgoi neu ei leihau. Os yw'r Awdurdod yn penderfynu bod angen gwneud y gwaith ar unwaith, gall ddechrau gweithio heb roi hysbysiad, ond rhaid iddo roi hysbysiad bod y gwaith wedi dechrau cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

**Mae adran 45** yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i roi hysbysiad hefyd i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn yr hysbysiad. Rhestrir y personau hyn yn yr adran hon.

## Taliadau mewn cysylltiad â gweithrediadau

**Mae adran 46** yn ymdrin â gorchmynion cyfrannu. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau penodol gyfrannu tuag at y treuliau y byddai rhaid i berchennog ar dir eu hysgwyddo fel arall o ganlyniad i gynnal y gweithrediadau a bennir mewn hysbysiad o dan adran 33 neu 44. Mae'r rhain yn cynnwys person yr oedd ganddo ystad neu fuddiant yn y tir ar y diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad i'r perchennog, neu ar unrhyw adeg yn y 12 mlynedd cyn hynny. Mae hefyd yn cynnwys person a oedd, yn ystod y 12 mlynedd flaenorol, wedi defnyddio'r domen nas defnyddir i ddyddodi gwastraff o fwynglawdd neu chwarel. Mae'n amlinellu pwy all wneud cais, a'r wybodaeth y dylai'r llys ei hystyried wrth benderfynu arno.

**Mae adran 47** yn pennu ystyr 'gorchymyn cyfrannu', 'cyfrannydd' ac 'y ganran benodedig'.

**Mae adran 48** yn mynd i'r afael â digolllediad am ddifrod, colled neu aflonyddu a achosir gan weithrediadau a gynhelir gan y perchennog neu'r Awdurdod. Mae digolledlad o'r fath yn adenilladwy naill ai gan berchennog y tir (os cynhaliodd y gweithrediadau neu'r gwaith) neu'r Awdurdod (os gwnaeth ef hynny).

**Mae adran 49** yn amlinellu hawl y perchennog i adennill treuliau oddi wrth gyfrannydd, a'r ganran a'r broses benodedig.

**Mae adran 50** yn egluro hawl cyfrannydd i apelio yn erbyn archiad perchennog, gan gynnwys yr amserlenni a'r seiliau dros apelio.

**Mae adran 51** yn nodi hawl yr Awdurdod i adennill treuliau oddi wrth berchennog y tir, pan fo wedi cynnal ymchwiliadau a gweithrediadau.

**Mae adran 52** yn amlinellu'r hawl i apelio yn erbyn archiad yr Awdurdod am dreuliau (yn adran 51). Mae hyn yn cynnwys yr amserlenni a'r seiliau dros apêl o'r fath.

### Darpariaeth atodol

**Mae adran 53** yn rhoi pŵer i'r Awdurdod gynnal ymchwiliadau ar dir i benderfynu a oes angen gwneud gweithrediadau yn ofynnol (o dan adran 33) neu a yw gweithrediadau yn cael eu cynnal yn unol â hysbysiad (o dan adran 33).

**Mae adran 54** yn nodi'r cosbau am rwystro gweithrediadau'n fwriadol.

## Rhan 4 – Darpariaeth Atodol

### Rhannu gwybodaeth

**Mae adran 55** yn ymwneud â rhannu gwybodaeth, ac yn nodi ystyr 'awdurdod cyhoeddus perthnasol'.

**Mae adran 56** yn amlinellu pŵer yr Awdurdod i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus perthnasol roi gwybodaeth iddo, at ddiben arfer ei swyddogaethau.

**Mae adran 57** yn nodi dyletswyddau'r Awdurdod ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol i rannu gwybodaeth. Os daw awdurdod cyhoeddus yn ymwybodol o fygythiad i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu dystiolaeth o'i ansefydlogrwydd, ac os yw'n ystyried y dylid rhannu hyn â'r Awdurdod, rhaid iddo roi'r wybodaeth i'r Awdurdod cyn gynted â phosibl. Mae'r un peth yn gymwys os

daw'r Awdurdod yn ymwybodol o wybodaeth o'r fath ac os yw'n ystyried y dylid tynnu sylw awdurdod cyhoeddus perthnasol ati.

**Mae adran 58** yn ymdrin â gwybodaeth am ystadau neu fuddiannau mewn tir. Mae'n rhoi pŵer i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd/person sy'n cael rhent am ddarn o dir gadarnhau yn ysgrifenedig natur ei ystad neu ei fuddiant yn y tir. At hynny, os yw'n gwybod am rywun arall a chanddo ystad neu fuddiant yn y tir, mae angen iddo roi ei enw a'i fanylion cyswllt.

**Mae adran 59** yn gymwys i ystad neu fuddiant yn nhir y Goron nad yw'n fuddiant preifat. Caiff yr Awdurdod wneud cais i awdurdod priodol y Goron i gadarnhau natur ei ystad neu ei fuddiant yn y tir, a manylion cyswllt unrhyw berson arall a all fod ag ystad neu fuddiant yn y tir.

**Mae adran 60** yn ymdrin â gwybodaeth i adnabod neu asesu bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir. Mae'n galluogi'r Awdurdod i'w gwneud yn ofynnol i bersonau roi gwybodaeth iddo a fydd yn ei helpu i adnabod bygythiad i sefydlogrwydd tomen, neu i asesu ei sefydlogrwydd.

**Mae adran 61** yn ei gwneud yn glir bod person yn cyflawni trosedd os nad yw'n darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani o dan adran 58 neu 60.

## Pwerau mynediad

**Mae adran 62** yn ymwneud â phwerau mynediad. Mae'n nodi y caiff person awdurdodedig fynd ar dir at ddiben gwneud un neu ragor o bethau penodol (sydd wedi'u rhestru yn yr adran hon) ar ran yr Awdurdod. Mae'r rhestr yn cynnwys asesiadau, arolygu, monitro a gwaith.

**Mae adran 63** yn nodi na chaiff person awdurdodedig (o dan adran 62) fynnu mynediad fel hawl i unrhyw dir sydd wedi ei feddiannu, oni bai bod o leiaf 48 awr o rybudd wedi ei roi i'r meddiannydd. Nid yw hyn yn gymwys os yw'r Awdurdod yn credu bod y domen yn ansefydlog, a bod ansefydlogrwydd y domen yn peri bygythiad i les pobl sy'n golygu bod angen mynd ar y tir ar unwaith. Ni chaiff person awdurdodedig fynnu mynediad fel hawl i dir preswyl.

**Mae adran 64** yn ei gwneud yn glir y caiff ynad heddwch, ar gais gan yr Awdurdod, ddyroddi gwarant sy'n caniatáu i berson awdurdodedig fynd ar dir, drwy rym os oes angen.

**Mae adran 65** yn darparu y gall gwarant o dan adran 64 roi pŵer i fynd ar dir ar

adeg resymol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gymwys os yw tomen nas defnyddir yn ansefydlog, ac yn peri bygythiad i les pobl sy'n golygu bod angen mynd ar y tir ar unwaith.

**Mae adran 66** yn nodi bod person sy'n rhwystro'n fwriadol arfer gwarant yn cyflawni trosedd.

**Mae adran 67** yn nodi na chaiff person awdurdodedig fynd ar dir y Goron o dan adran 62 oni bai bod awdurdod priodol y Goron wedi rhoi caniatâd iddo wneud hynny, neu fod yr Awdurdod yn credu bod tomen nas defnyddir yn ansefydlog ac yn peri bygythiad i les pobl sy'n golygu bod angen mynd ar y tir ar unwaith.

### Amrywiol

**Mae adran 68** yn nodi y caiff yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol i unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig, ac y caiff godi ffi am y gwasanaeth hwn.

**Mae adran 69** yn nodi bod rhaid i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru wrth arfer ei swyddogaethau.

**Mae adran 70** yn rhestru diwygiadau i Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969. Mae'r rhain yn gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth i wahaniaethu rhwng trefniadau yng Nghymru drwy gyfeirio'n benodol at Loegr a'r Alban.

## Rhan 5 - Cyffredinol

### Troseddau

**Mae adran 71** yn ymdrin â throseddau gan gyrff corfforedig. Pan fo trosedd yn cael ei chyflawni gan gorff corfforedig, a phan brofir ei bod wedi ei chyflawni gyda chydsyniad/priodoliad i uwch-swyddog i'r corff, neu rywun sy'n honni ei fod yn un, yna mae'r person a'r corff yn euog o'r drosedd.

**Mae adran 72** yn nodi mai dim ond gan yr Awdurdod neu gan/gyda chydsyniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus y caniateir dwyn achos mewn cysylltiad â throsedd.

### Rheoliadau

**Mae adran 73** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol neu ddarpariaeth ganlyniadol, a

darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

**Mae adran 74** yn nodi y bydd rheoliadau o dan y Ddeddf yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol, ac yn disgrifio pa ddarpariaethau fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

## Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill

**Mae adran 75** yn cynnwys darpariaeth gyffredinol ynghylch rhoi hysbysiadau, yn benodol drwy ddiffinio 'rhoi' – er enghraifft, ei roi, ei anfon drwy'r post, neu ei anfon drwy e-bost.

**Mae adran 76** yn cynnwys darpariaeth ychwanegol ynghylch rhoi hysbysiadau i bersonau sy'n meddiannu tir neu sydd â buddiant mewn tir.

**Mae adran 77** yn nodi, pan fydd hysbysiadau i'w rhoi i'r Goron, fod hyn yn golygu bod rhaid eu rhoi i awdurdod priodol y Goron.

## Achosion arbennig

**Mae adran 78** yn nodi darpariaethau sy'n ymwneud â chodi arian mewn achosion penodol i gwrdd â gwariant. Mae hyn yn cynnwys treuliau yr eir iddynt o dan hysbysiad adran 33, digollediad sy'n adenilladwy o dan adran 48, a symiau sy'n adenilladwy o dan adrannau 49 a 51.

**Mae adran 79** yn nodi, pan fo darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol rhoi dogfen i berson fel meddiannydd neu berchennog tir sy'n perthyn i Eglwys Loegr, rhaid rhoi hon hefyd i'r Bwrdd Cyllid Esgobaethol priodol. Mae hefyd yn amlinellu'r digollediad sy'n daladwy mewn cysylltiad â thir Eglwys Loegr.

**Mae adran 80** yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu cymhwysiad y Ddeddf mewn perthynas â thir y mae gan yr Awdurdod ystad neu fuddiant ynddo.

## Dehongli

**Mae adran 81** yn darparu ystyr 'tomen' a 'tomen nas defnyddir'. Mewn perthynas â'r olaf, diffinnir hyn drwy gyfeirio at domenni ac eithrio un y mae Rheoliadau Chwareli 1999 a Rheoliadau Mwyngloddiau 2014 yn gymwys iddi.

**Mae adran 82** yn pennu ystyr 'bygythiad i les pobl'.

**Mae adran 83** yn pennu ystyr ‘perchennog’.

**Mae adran 84** yn amlinellu diffiniadau sy’n ymwneud â’r Goron.

**Mae adran 85** yn pennu ystyr ‘y llys’ a ‘gweithrediadau’.

**Mae adran 86** yn cynnwys mynegai o dermau wedi eu diffinio.

### Amrywiol

**Mae adran 87** yn nodi pryd y daw rhannau o’r Ddeddf i rym. Daw adrannau 1, 2 a 5 ac Atodlen 1 i rym ar 1 Ebrill 2027.

**Mae adran 88** yn amlinellu enw byr y Ddeddf fel y *Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) [2025]*.

## Atodlen 1 – Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru

**Mae Atodlen 1** yn pennu manylion yr Awdurdod, gan gynnwys aelodaeth, staff, dirprwyo swyddogaethau, materion ariannol gan gynnwys archwilio, a gofynion adrodd.

## Atodlen 2 – Hawliadau am ddigolledid gan berchnogion a chyfranwyr

**Mae Atodlen 2** yn gwneud darpariaeth ar gyfer hawliadau am ddigolledid gan berchnogion a chyfranwyr. “Cyfranwyr” yw personau y mae gorchymyn cyfrannu wedi ei wneud mewn perthynas â hwy o dan adran 46.

## Atodlen 3 – Addasiadau i adrannau 49 a 50 pan fo hysbysiad o dan adran 33 yn cael ei ganslo

**Mae Atodlen 3** yn nodi addasiadau a fydd yn gymwys i adrannau 49 a 50 pan fo’r Awdurdod yn canslo hysbysiad y mae wedi ei roi i berchennog o dan adran 33.